



Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 24AIN MAWRTH, 2020**

Lleoliad

**Parlwr Mawr, Theatr y Ddraig,  
Jubilee Road, Bermo, Gwynedd. LL42 1EF**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**Lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWDYD 16 Mawrth 2020)

## **AELODAETH:**

### **Cyngor Gwynedd:**

Louise Hughes  
Eryl Jones-Williams  
Gethin Glyn Williams

### **Aelodau Cyfetholedig:**

Cynghorydd Rob Triggs  
Cynghorydd R A Williams  
Dr John Smith  
Wendy Ponsford  
John Johnson

Mark James  
Martin Parouty  
Cynghorydd Brain Wooley  
Sedd wag

Cyngor Tref Abermaw  
Grwp Gwella Cyrchfannau Abermaw  
Grwp Mynediad Traphont Abermaw  
Clwb Hwyllo Merioneth  
Cymdeithas Pysgota Abermaw a Bae  
Ceredigion  
Cymdeithas y Bad Achub  
Grwp Defnyddwyr Harbwr Abermaw  
Cyngor Cymuned Arthog  
Pwyllgor Ras y Tri Copa

### **Sylwedyddion:**

Peter Read  
Dr John Jones-Morris  
Gareth Thomas

Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli  
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog  
Aelod Cabinet Datblygu'r Economi

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. COFNODION

4 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 19 Hydref 2019 fel rhai cywir

## 4. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

10 - 16

I ystyried

- a) adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau
- b) adroddiad yr Harbwrfeistr

## 5. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

I nodi cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw ar 20fed Hydref 2020

---

## PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW 22/10/19

---

### YN BRESENNOL:

**Aelodau:** Cyng. Gethin Glyn Williams (Cyngor Gwynedd), Cyng. Eryl Jones-Williams (Cyngor Gwynedd), Cyng. Louise Hughes (Cyngor Gwynedd), Cyng. R. Triggs (Cyngor Tref Abermaw), Cyng. Mark James (RNLI), Mrs Wendy Ponsford (Aelod o Glwb Hwyllo Meirionnydd), Cyng. Brian Wooley (Cyngor Cymuned Arthog) a S Leese (Grŵp Defnyddwyr Harbwr Abermaw)

Swyddogion: Llŷr B Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned), Arthur Jones (Uwch Swyddog Harbyrau), Glyn Jones (Harbwr Feistr Abermaw), Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth) a Mererid Watt (Cyfieithydd)

**Erail a wahoddwyd:** Peter Appleton (FLAG Abermaw), Alison Kinsey (FLAG Bae Ceredigion), Ian Sadler (FLAG Abermaw)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet - Economi), Barry Davies (Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig), Dr John Smith (Grŵp Mynediad Traphont Abermaw), Mr Martin Parouty (Grŵp Defnyddwyr Harbwr Abermaw) a'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd)

### 1. CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD** ail ethol y Cynghorydd Gethin Williams yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2019/20

### 2. IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD** ail ethol y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2019/20.

### 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

### 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26ain Mawrth, 2019, fel rhai cywir.

#### Materion yn codi o'r cofnodion:

(a) **Digwyddiadau**

Adroddwyd bod y gweithgareddau a'r digwyddiadau allweddol a gynhaliwyd ar y traeth gan FLAG (Fisheries Local Action Group) wedi bod yn llwyddiannus ac wedi codi ymwybyddiaeth. Diolchwyd i bawb oedd wedi bod yn rhan o'r trefniadau ac i unrhyw syniadau ar gyfer digwyddiadau i'r dyfodol gael eu hanfon at Alison Kinsey

(b) **Ffordd y Compownd**

Mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor yn y cyfarfod diwethaf i sefydlu rheolaeth addas ar gyfer y safle, nododd Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned bod adolygiad i orchmynion parcio'r Sir yn cael ei gynnal. Ategodd bod rhestr ddrafft o safleoedd

wedi eu hadnabod a bod Ffordd y Compownd wedi ei gynnwys ar y rhestr honno. Amlygwyd bod Grŵp Tasg wedi ei sefydlu i gynorthwyo'r gwasanaeth cludiant gyda'r gwaith o ddadansoddi'r amrediad opsiynau ar gyfer rheoli parcio yn wyneb heriau ariannol incwm o feysydd parcio yn y dyfodol. **Cynigiwyd rhoi diweddariad ar waith y Grŵp Tasg yn y cyfarfod nesaf**

Cymeradwywyd yr adran forwrol am eu gwaith o gynnal a chadw Ffordd y Compownd ond gwarthus yw'r modd y mae defnyddwyr yn defnyddio'r safle. Nodwyd bod pum digwyddiad wedi bod ar y safle, ond diffyg tystiolaeth teledu cylch cyfyng i'r Heddlu gynnal ymchwiliad pellach. Cynigiwyd yr angen i gyfyngu'r defnydd i grŵp penodol o ddefnyddwyr neu ystyried opsiwn i'r dyfodol o dalu am ddefnyddio'r gofod.

(c) **Angorfeydd**

Mewn ymateb i gofnod y cyfarfod diwethaf bod angen ceisio barn defnyddwyr ynglŷn â pham bod perchnogion angorfeydd yn ymadael, nodwyd mai anodd yw darganfod un ystadegyn dros y lleihad mewn defnydd. Ategwyd mai tebyg yw'r sefyllfa ar draws y wlad.

(ch) **Cyfleuster penodol ar gyfer beiciau dwr**

Mewn ymateb i awgrym gan y Pwyllgor yn y cyfarfod diwethaf bod angen ystyried dulliau o reoli a darparu cyfleuster penodol ar gyfer angori beiciau dwr, nododd yr harbwr feistr mai anodd fyddai dynodi safle a chyfleuster penodol ar eu cyfer. Y rhwystr pennaf yw'r llaid sydd yn rhwystro'r beiciau rhag angori a gellid ond angori wrth y llithrfa neu'r pontŵn ar adegau pan mae'r llanw yn caniatáu hynny. Yr ymddygiad a welir ar hyn o bryd yw gwthio'r beic ar y traeth a'i barcio yno. Amlygwyd bod y beiciau dwr yn cael eu defnyddio gan amlaf fel modd hwylus o gyrraedd y dref o feysydd carafanau cyfagos. Ategwyd bod modd ffurfio llwyfan glanio tu hwnt i'r morglawdd ond ni fyddai hyn mewn gwirionedd yn gyfleus. Nodwyd bod ymdrechion wedi ei gwneud i geisio hwyluso'r ddarpariaeth ond dim opsiynau amgen oni bai bod modd carthu'r harbwr.

Adroddwyd nad oedd beiciau dwr yn dod ag unrhyw incwm i'r harbwr a phetai beiciau dwr yn cael eu lansio oddi ar lithrfa byddai'r incwm yn mynd tuag at gyllid traethau. Nodwyd bod nifer yn lansio o feysydd carafanau cyfagos heb unrhyw reolaeth gadarn. Ategwyd nad yw beic dwr yn cael ei gydnabod fel cwch neu long ac felly'r ddeddfwriaeth sydd yn cwmpasu defnydd beic dwr yn niwlog.

Mewn ymateb i'r sylwadau nododd Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned yn ddelfrydol, yn unol â'r trefniant, y dylai pob beic dwr gofrestru gyda'r Cyngor. Derbyniwyd y sylw bod angen cydweithio gyda meysydd carafanau ynglŷn â rheoli / cofrestru beiciau dwr a bod ymweliadau i'r harbwr yn ddiogel gyda darpariaeth addas ar eu cyfer. Derbyniwyd nifer o gwynion dros yr Haf sydd wedi arwain at waith adolygu is ddeddfau ar gyfer rheoli beiciau dwr. Ategwyd bod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda'r Uned Gyfreithiol a defnyddwyr.

Mewn ymateb i sylwadau'r Pennaeth Cynorthwyol, nodwyd

- Pryder bod gyrrwyr beiciau dwr yn yfed ac yn gyrru
- Bod rhaid addasu'r ddeddfwriaeth gan geisio rheolau sydd yn gyson â gyrru car
- Bod angen gwell cydweithio rhwng y perchnogion parciau carafanau ar Gwasanaeth Morwrol i hyrwyddo agweddau diogelwch ac ymddygiad cyfrifol ar y dŵr

- Awgrym y dylid hyrwyddo negeseuon drwy wefan PWC Gwynedd (clwb beiciau dwr)
- Bod angen cyfeirio pryderon at yr Aelod Cynulliad Dafydd Elis Thomas, Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth (etholaeth Dwyfor a Meirionnydd)

## 6. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

### (a) Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Uwch Swyddog Harbyrau yn rhoi diweddariad cryno ar faterion yr Harbwr am y cyfnod rhwng Mawrth 2019 a Hydref 2019.

#### Angorfeydd

Mewn ymateb i gofnod y cyfarfod diwethaf bod angen ceisio barn defnyddwyr ynglŷn â pham bod perchnogion angorfeydd yn ymadael, nodwyd mai anodd yw darganfod un ystadegyn dros y lleihad mewn defnydd. Ategwyd mai tebyg yw'r sefyllfa ar draws y wlad

#### Cod Diogelwch

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Asiantaeth Morwrol a Gwylwyr y Glannau wedi cynnal archwiliad ym Mawrth 2019 ar drefniadau penodol a system Harbyrau Bwrdeistrefol Gwynedd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a'r Cod Diogelwch Morol. Yn dilyn ymweliad pellach i weld sut roedd yr ychwanegiadau a awgrymwyd wedi ei gweithredu, adroddwyd bod Capten Quader (archwilydd o'r Asiantaeth) yn fodlon bod y Gwasanaeth yn cydymffurfio â darpariaethau'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd.

#### Materion Staffio

Adroddwyd bod penderfyniad wedi ei wneud i estyn cyfnod cyflogaeth dymhorol Cymhorthydd Harbwr Abermaw tan ddiwedd Rhagfyr 2019 er mwyn sicrhau cefnogaeth i'r harbwr feistr ynghyd â chysondeb gwasanaeth ar draws y Sir. Ategwyd mai'r bwriad yw pennu'r swydd yn un barhaol.

#### Materion Ariannol

Cyflwynwyd cyllideb yr harbwr i amlygu'r sefyllfa ariannol bresennol hyd at ddiwedd Medi 2019. Amcangyfrifwyd gorwariant o £11,807. Amlygwyd bod bwriad o godi ffioedd lansio dyddiol o £10 i £15

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â gwariant ar 'offer a chelfi', mynegwyd nad yw'r gwariant yn wastraffus, bod popeth sydd yn ymwneud a chynnal a chadw, offer ac offer llaw yn cael ei gynnwys yn y gyllideb yma. Ategwyd nad yw disgwyliad oes yr offer yn hir oherwydd yr amodau cras. Gofynnwyd hefyd os oedd y gyllideb yn cael ei gosod yn gywir ac addas i'r deilliannau. **Awgrymwyd y dylai'r Cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor gynnig mewnbwn i osod y gyllideb.**

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Sut mae'r codiad mewn ffioedd yn cymharu ag awdurdodau eraill?
- Er y codiad mewn prisiau, nid yw bob amser yn bosibl lansio - hyn yn dibynnu ar y llanw a'r lleoliad lansio penodol
- Bod cynnydd o 50% yn un cam mawr

Bydd y codiad yn effeithio bob defnyddwyr yr harbwr ac nid y rhai hynny sydd angen eu targedu e.e., defnyddwyr beiciau dwr

- Bod angen annog a hyrwyddo defnyddwyr i brynu tocyn blynyddol sydd yn fwy o werth am arian

Mewn ymateb i'r sylwadau nododd Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned o ganlyniad i'r incwm yn lleihau nid oedd modd cynyddu'r gyllideb. Ategodd yr angen i hyrwyddo ac annog mwy o ddefnydd a bod codi incwm yn sicrhau parhad gwasanaeth

## (b) Adroddiad yr Harbwr Feistr

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Harbwr Feistr yn manylu ar faterion mordwyo, gweithredol a chynnal a chadw. Tynnwyd sylw at y materion canlynol:

- Bod buddsoddiad sylweddol wedi ei wneud i uwchraddio'r bwiau mordwyo yn y sianel
- Bod cynllun gwaith gweithredu a gwaith cynnal a chadw wedi ei adnabod ar gyfer y gaeaf
- Bod adborth da wedi ei dderbyn ynglŷn ag arwyddion diogelwch (sydd wedi ei darparu ar y cyd gyda Chymdeithas y Bad Achub
- Cais i'r aelodau adrodd ar unrhyw broblem / fater yn ymwneud a'r sianel i'r harbwr feistr a fydd yn fwy na pharod i ymchwilio i'r mater

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â pha mor fanwl gywir yw'r marciau mordwyo adroddwyd bod y sianel yn iawn ac mewn ymateb pellach i sylw bod 'clawdd' o dywod wedi yn ffurfio ger mynediad y sianel, adroddwyd oherwydd presenoldeb y bwiau presennol a'r wybodaeth fordwyo a ddarperir gan yr harbwrfeistr nid oedd unrhyw ofyniad am fwi ychwanegol

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â hysbysfyrdau ar draeth y Friog, adroddwyd bod y rhain yn barod i'w gosod

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â gosod llithrfa ar draeth y Friog er mwyn sicrhau mynediad i'r traeth nododd Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned bod angen ystyried datrysiad a dyluniad addas i'r cais. Nododd nad oedd yr hen lithrfa yn ymestyn i'r traeth i greu mynediad ac fe'i symudwyd oherwydd ei fod mewn cyflwr gwael ac wedi dirywio yn sylweddol. Ategwyd y byddai hefyd angen ystyried cost y fenter. Cynigiwyd cydweithio gyda'r gymuned i geisio datrysiad gan sefydlu tîm yn Y Friog i drafod syniadau gyda Ymgynghoriaeth Gwynedd. Nododd y Cynghorydd Lleol y byddai llithrfa newydd yn ystum o ewyllys da ac y byddai'r gymuned yn barod i geisio codi arian ar gyfer y fenter. Awgrymwyd cynnwys FLAG yn y trafodaethau.

Yng nghyd-destun yr arwyddion diogelwch awgrymwyd dull o warchod yr arwyddion drwy roi gorchudd drostynt gan eu bod yn cael eu difrodi wrth eu symud.

## **PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau.**

## **8. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL**

### (a) Cynllun Datblygu Harbwr Abermaw

Amlygwyd dymuniad i lunio cynllun datblygu. Derbyniwyd nad oedd cyllideb i wireddu a gweithredu'r cynllun, ond teimlwyd bod angen cael cynllun yn ei le i osod cyfeiriad a chynllunio ymlaen i'r dyfodol. Yn ddelfrydol, dymunwyd cyngor ar y gwaith y gellid ei gyflawni a'r deddfwriaethau perthnasol sydd angen eu hystyried i garthu'r harbwr

**Penderfynwyd gofyn i'r Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned sefydlu Grŵp Tasg i ffurfio 'map meddwl' ar yr hyn sy'n ddymunol gyda gwahoddiad i swyddog o Ymgynghoriaeth Gwynedd fynychu**

- Pwysleisiwyd yr angen i ymgysylltu gyda'r cyhoedd a rhoi dealltwriaeth iddynt o'r hyn gall ei wneud ar hyn na all ei wneud.
- Etholwyd John Smith, Rob Triggs, Alison Kinsey, Peter Appleton, Wendy Ponsford yn aelodau o'r Grŵp Tasg ynghyd a'r swyddogion allweddol.
- Cam cyntaf y grŵp fyddai sefydlu sylfaen i gynllun datblygu gan roi ystyriaeth briodol i'r Fframwaith Cod Diogelwch Morwrol.
- Yr ail gam fydd cyflwyno'r cynllun datblygu i Cyfoeth Naturiol Cymru fel bod modd iddynt gyfrannu ac ymateb i'r cynllun.

**(b) Grisiau Cyhoeddus**

Amlygwyd bod Swyddog o'r Uned Gwarchod yr Arfordir wedi ei alw i edrych ar sylfaen y grisiau a bod yr Uned wedi derbyn mai eu cyfrifoldeb hwy yw'r sylfaen

**(c) Railtrack a Thrashont Abermaw**

Bod cais am sicrwydd nad yw'r bocsys gabian gerllaw'r rheilffordd yn cael eu codi'n uwch cyn dechrau'r cam nesaf o waith. Nodwyd bod negeseuon cymysg yn cael eu hadrodd. Cadarnhawyd mai Cyfoeth Naturiol Cymru sydd bellach yn gyfrifol am y gwaith asesu

**(ch) Symudiad Tywod**

Yn dilyn y gwaith clirio a wnaed ym Mawrth 2019 ar glirio tywod gofynnwyd am adborth o ran cost ac effaith. Eglurwyd y byddai modd cynnwys yr eitem ar raglen Mawrth 2020 - byddai hyn yn gyfle i gael adborth o flwyddyn lawn a gwir effaith y gwaith.

**(d) Morglawdd**

Gwnaed sylw bod angen cadw'r morglawdd yn glir o dywod er mwyn sicrhau mynediad i ddefnyddwyr. Amlygwyd bod offer ar gael yn iard Priffyrdd a Bwrdeistrefol fyddai'n addas ar gyfer y gwaith clirio.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Awgrym i ail ymgynnull y Grŵp Tywod
- Angen amlygu'r pryderon i Bennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol
- Bod y gymuned leol yn barod i gynorthwyo gyda'r gwaith clirio
- Bod y morglawdd yn ased gwerthfawr i'r dref - yn galluogi mynediad i ddefnyddwyr cadair olwyn, teuluoedd gyda phramiau ayyb
- Angen i'r morglawdd fod yn glir drwy'r flwyddyn
- Gwahodd Rheolwr Twristiaeth a Marchnata i'r cyfarfod ynghyd ag aelodau o'r Cyngor Tref
- Cynnal trafodaeth gyda'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ynglŷn â defnyddio'r offer

**(dd) Tywod ger y baddondy**

Amlygwyd bod y tywod gerllaw y baddondy bellach yn ffurfio twyn. Cadarnhaodd yr harbwr feistr y byddai yn ymdrin a'r sefyllfa



**9. CYFARFOD NESAF**

Nodwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 24ain Mawrth, 2020.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30am a daeth i ben am 12:30pm

# Eitem 4

CYFARFOD	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw
DYDDIAD	24ain Mawrth 2020
TEITL	Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr
AWDUR	Uwch Swyddog Harbyrau

## 1. Cyflwyniad.

- 1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Abermaw.
- 1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad bras i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y cyfnod rhwng mis Hydref 2019 a Mawrth 2020, er mwyn cael adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

## 2. Angorfeydd Abermaw a Chofrestru Cychod.

- 2.1 Fel mae'r tymor yn nesáu, dosbarthwyd ffurflenni cais angorfeydd i'n cwsmeriaid presennol. Yn anffodus, dim ond nifer gyfyngedig sydd wedi eu hanfon yn ôl hyd yma. Derbyniwyd nifer o ymholiadau newydd yn swyddfa'r harbwr am angorfeydd yn yr harbwr a chofrestru cychod ar gyfer y flwyddyn a ddaw.
- 2.2 Hoffai'r Gwasanaeth atgoffa'r aelodau y dylid llenwi'r ffurflenni cais am angorfa a chwblhau'r gofynion gweinyddol cysylltiedig, gan ddychwelyd popeth i Swyddfa Harbwr Abermaw cyn gynted â phosib. Bydd hyn yn hwyluso proses weinyddol effeithiol.
- 2.3 Fel yn y blynyddoedd diwethaf, rhagwelir y cynhelir archwiliad tanddwr o angorfeydd y Cyngor yn yr harbwr o dan gyfarwyddyd yr Harbwrfeistr.

## 3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd

- 3.1 Mae Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu safon genedlaethol y llywodraeth ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd y porthladdoedd morol. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn nodweddu arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol.

- 3.2 Mae gan y Gwasanaeth fersiwn ddiwygiedig o'r Cod Diogelwch i Harbyrau Gwynedd yn ei le gan gynnwys Harbwr Abermaw, a gymeradwywyd gan Arolygwyr yr Asiantaeth Forwrol a Gwarchodwyr y Glannau yn dilyn eu harchwiliadau y llynedd.
- 3.3 Bydd y Gwasanaeth yn parhau i adolygu'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd, yn ôl yr arfer safonol. Dylai aelodau o'r Pwyllgor Ymgynghorol gyflwyno unrhyw sylwadau sydd ganddynt ar addasrwydd y Cod Diogelwch, ynghyd â unrhyw sylwadau ar drefniadau gwaith yr harbwr, i sicrhau bod y cod yn parhau yn berthnasol i weithgareddau lleol yr harbwr.

## 4. Materion Staffio.

Mae'r Awdurdod Harbwr yn falch o gadarnhau fod ganddo dri harbwrfeistr cynorthwyol mewn cyflogaeth llawn amser gyda Chyngor Gwynedd, sy'n gweithio ar draws harbyrau Porthmadog, Abermaw ac Aberdyfi. Penodwyd Cymhorthydd Harbwr Abermaw yn ffurfiol i'r swydd yn Harbwr Abermaw. Yn wahanol i'r staff tymhorol a benodwyd sy'n dilyn rhaglen hyfforddi strwythuredig,

bydd y Cymhorthyddion Harbwr yn rhoi gwell proffesiynoldeb, gyda gwell trefniadau gwaith gan hwyluso cynllunio i'r dyfodol yn y Gwasanaeth.

## **5. Materion Ariannol.**

5.1 Dosberthir crynodeb bras o gyllidebau'r harbwr a'r sefyllfa ariannol gyfredol hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol, yn y cyfarfod.

5.2 Yn ystod y cyfnod yma, bu'n rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr isod;

- Cyflogi Cymhorthydd Harbwr llawn amser
- Cynnal a Chadw Cymhorthion Mordwyo a Goleufeydd
- Cynnal a chadw a gweithredu cychod yr Harbwr gan gynnwys prynu offer ychwanegol ar gyfer cwch patrôl Powercat i gwrdd â gofynion y Cod Ymarfer i alluogi'r cwch i fynd yn ei flaen i'r môr
- Cynnal a chadw'r tiroedd a'r celfi stryd

### **5.3 Ffioedd a Thaliadau 2020/21.**

Bydd y Gwasanaeth yn darparu manylion ffioedd a thaliadau Harbwr Abermaw yn ystod y cyfnod Ebrill 2020 - Ebrill 2021 ynghyd â ffioedd lawnsio Cychod Pŵer a Cherbydau Dŵr Personol am yr un cyfnod, ar ddiwrnod y cyfarfod.

**6. Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Bydd Harbwrfeistr Abermaw yn darparu crynodeb o'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng Hydref 2019 a Mawrth 2019, gan gynnwys materion cynnal a chadw. Copi o'i adroddiad yw'r brif ddogfen.

<b>CYFARFOD</b>	<b>Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>24ain Mawrth 2020</b>
<b>TEITL</b>	<b>Adroddiad yr Harbwrfeistr</b>
<b>AWDUR</b>	<b>Harbwrfeistr Abermaw</b>

## **1. Materion Mordwyo**

- 1.1. Mae'r cymhorthion mordwyo sy'n marcio'r sianel ddynesu at harbwr Abermaw wedi aros yn eu lle dros y rhan fwyaf o fisoedd y gaeaf. Yr eithriad oedd Bwi port rhif 2, a ddaeth i'r lan ym Nhrwyn Fairbourne ac yn yr un lleoliad ac ar yr un amser daeth bwi newydd starboard arllwysfa Farirbourne, sy'n eiddo i Ddŵr Cymru, hefyd i'r lan. Cyflwynwyd Hysbysiad Lleol i Forwyr am y cymhorthion mordwyo yma a hyderir y bydd y bwiau yn ôl yn eu lle cyn gynted â phosib gyda chymorth Dŵr Cymru a'r contractwr angorfeydd.
- 1.2 Yn unol â'r gwaith cynnal a chadw arferol, rhagwelir y bydd y marciau mordwyo yn y sianel yn cael eu harchwilio yn ystod y misoedd nesaf. Mae hyn yn cynnwys y Nod Cardinal ar Graig y Perch a Chymhorthydd mordwyo morwal y Perch. Yn amodol i ymrwymadau gwaith y contractwr angorfeydd, bydd unrhyw offer sydd wedi gwisgo neu wedi'i ddifrodi yn cael ei drwsio neu ei newid. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn bwriadu adnewyddu'r marciau presennol yn yr aber a leolir ger pont y rheilffordd.
- 1.3 Mae'r sefyllfa bresennol y sianel fordwyo yn debyg i'r un a gyflwynwyd ym mis Medi diwethaf. Disgwylir i arolygon pellach o'r sianel y gellid ei mordwyo gael eu cynnal cyn y Pasg, a bydd unrhyw waith angenrheidiol i symud marciau'r sianel yn cael ei wneud wedi hynny. Mae'r Gwasanaeth yn archwilio'r sianel yn rheolaidd ar lanw isel yn ogystal â defnyddio cwch yr harbwr pan fo hynny'n ymarferol i gynnal arolygon, i geisio sicrhau bod y cymhorthion mordwyo yn y lle mwyaf addas.

## **2. Materion Gweithredol**

- 2.1 Ar hyn o bryd mae staff sy'n gweithio ar ran Network Rail yn y broses o gynnal arolygon manwl o'r gwaith sydd ei angen ar Bont Reilffordd Abermaw. Bydd dau gwch diogelwch yn bresennol tra bo'r gwaith yma'n mynd rhagddo. Unwaith y cwblhelir hyn bydd gwell dealltwriaeth o raddfa ac ystod y gwaith ynghyd â'r peiriannau a'r llwybrau mynediad sydd eu hangen i gyflawni'r gwaith o ail-wampio'r strwythur.
- 2.1.1 Deallir y bydd nifer o flychau gabion yn cael eu symud fel rhan o'r rhaglen waith ar y bont, a bydd y gwaith yn ymestyn dros gyfnod o dair blynedd. Er bydd y blychau gabion presennol yn cael eu dychwelyd maes o law, mae'r Gwasanaeth yn deall na fydd unrhyw flychau gabion ychwanegol yn cael eu gosod yn ystod y rhaglen waith.
- 2.2 Bydd staff yr harbwr yn parhau i gyd-gysylltu ac yn ceisio cymorth gan y rheolwyr a'r staff perthnasol yn y parciau carafanau lleol i geisio mynd i'r afael â'r defnydd gwrth gymdeithasol o gychod dŵr personol ar yr arfordir cyfagos ac yn nherfynau'r harbwr yn ystod yr haf. I gynorthwyo gyda hyn, yn ddiweddar cafodd cwch patrôl 'Powercat' yr harbwr ei uwchraddio ar gyfer gwaith ar y môr ac yn amodol i ganllawiau a chyfyngiadau awdurdodedig, bydd nawr yn gallu mynd ymhellach na'r dyfroedd a ddiffinwyd gan yr

Asiantaeth Forwrol a Gwarchodwyr y Glannau fel 'Dyfroedd wedi eu Categori' ar yr aber.

### 3. Angorfeydd

- 3.1. Bydd staff yr harbwr yn parhau i rifo'r angorfeydd a leolir yn yr harbwr gan adnabod safle pob angofa.  
Mae'r contractwr angorfeydd lleol yn ymwybodol o'r angen i ymgymryd â thasg o'r fath ac o'r angen i adrodd i'r harbwrfeistr os oes cwsmer yn cysylltu'n uniongyrchol i osod angorfa.

Atgoffir defnyddwyr yr harbwr o is-ddeddf 4 o Is-ddeddfau Harbwr Aberdyfi ac Abermaw 1985 sy'n datgan:

"Ni fydd unrhyw berson yn yr harbwr yn gosod neu yn achosi i osod angorfeydd i unrhyw gwch heb ganiatâd ysgrifenedig yr harbwrfeistr ac yn unol â thelerau'r caniatâd hwnnw".

- 3.2 Mae'n anffodus bod y gwasanaeth wedi derbyn nifer o ffurflenni cadarnhau angorfa anghyflawn sydd wedi eu dychwelyd i'r cwsmeriaid unigol. O ganlyniad, mae'r gwasanaeth yn dymuno atgoffa defnyddwyr yr harbwr o'r angen i gydymffurfio gyda Is-ddeddf rhif 5 o Is-ddeddfau Harbwr Aberdyfi ac Abermaw 1985 sy'n datgan:

*"Bydd perchennog offer angori yn archwilio ei offer angori yn flynyddol i sicrhau ei fod mewn cyflwr da, a bydd yn dangos Tystysgrif i'r Cyngor i gadarnhau hyn wrth ymgeisio i ad-leoli'r angorfa".*

- 3.3 Mae'r Gwasanaeth yn ymwybodol bod angorfa segur ger y 'Clockhouse' i fyny'r afon o bont reilffordd Abermaw. Mae'r Harbwrfeistr yn gwybod pwy yw perchennog yr angorfa ac mae trefniadau wedi eu gwneud ar y cyd gyda'r perchennog a'r contractwr angorfeydd i adnewyddu neu symud yr angorfa.

### 4. Cynnal a chadw

- 4.1 Yn ystod y stormydd gaeafol diweddar difrodwyd rheiliau'r harbwr, sy'n gwarchod ochr y cei, a'r ysgolion harbwr cysylltiedig ar wal y cei gan gychod oedd wedi angori ar ochr y cei. Bu'r Harbwrfeistr mewn cysylltiad gyda pherchnogion y cychod dan sylw gyda'r bwriad o ad-ennill costau a achoswyd fel rhan o'r broses atgyweirio sydd eto i'w chwblhau.
- 4.2 Mae rhwystr yr harbwr, sy'n darparu mynediad i flaen yr harbwr ac i ardal y pypiau disel, hefyd wedi ei ddifrodi ac mae angen i staff yr harbwr ymgymryd â gwaith cynnal a chadw. Digwyddodd hyn pan fagiodd cerbyd i mewn i'r rhwystr. Adroddwyd am y mater i Heddlu Gogledd Cymru ar y pryd, ond hyd yma nid yw eu hymholiadau wedi gallu adnabod y cerbyd dan sylw.
- 4.3 Mae'r Gwasanaeth wedi bod mewn cysylltiad gyda Ymgynghoriaeth Gwynedd (Amddiffyn yr Arfordir) am y gwaith atgyweirio sydd ei angen i risiau'r fferi ar flaen yr harbwr. Mae aelod o'r adran honno wedi archwilio'r grisiau ac mae'r Gwasanaeth yn

aros am ragor o wybodaeth o ran pryd bydd y gwaith atgyweirio yn digwydd. Bydd y sefyllfa'n cael ei monitro hyd nes fo'r gwaith atgyweirio wedi cael ei wneud.

- 4.4 Roedd stormydd y gaeaf, yn arbennig y rhai a enwyd yn Ciara a Dennis, yn gyfrifol am y difrod i'r rheiliau diogelwch a'r briffordd tua phen gogleddol y promenâd. Dechreuodd staff yr harbwr ar waith atgyweirio i'r rheiliau yn yr ardal yma ond yn dilyn difrod difrifol ychwanegol ar y 12fed o Fawrth, bydd y gwaith yn cael ei ohirio hyd nes y cynhelir archwiliad llawn gan beirianwyr. Mae staff yr harbwr yn parhau i fonitro'r llithrfa a'r ardal o amgylch pen gogleddol y promenâd sydd yn agored iawn i dyfiant algae, fel bo'r gwaith atgyweirio yn digwydd.
- 4.5 Bydd yr Harbwrfeistr yn crynhoi'r rhaglen gwaith cynnal a chadw a wnaed yn Harbwr Abermaw yn ystod y cyfnod rhwng Hydref 2019 a Mawrth 2020.

## 5. Materion Eraill

- 5.1 **Carthu'r Harbwr** Yng nghyfarfod diwethaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw, cytunwyd i drafod y posibilrwydd o garthu'r harbwr a nodwyd fod cyfle i ymgeisio am arian o'r Gronfa Ewropeaidd Morwrol a Physgodfeydd (Grŵp Gweithredu Lleol ar Bysgodfeydd (FLAG) Bae Ceredigion) i gynnal gwerthusiad o ran lefelau'r mwd yn y brif sianel fordwyo.
  - 5.1.1 Mewn cyfarfod dilynol o bartion oedd â diddordeb, cytunwyd i baratoi 'mynegiant o ddiddordeb' drafft a'i ddsbarthu i gael sylwadau mewn ymdrech i sicrhau arian o'r fath. Erbyn hyn mae'r gwaith wedi ei wneud. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, bwriedir cyflwyno'r gwaith papur perthnasol cyn 11eg o Fawrth, cyn cyfarfod Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd (FLAG) ar 18fed o Fawrth.
- 5.2 **Lloc y Pysgotwyr.** Mae'r Gwasanaeth ar hyn o bryd yn helpu defnyddwyr y lloc i gael gwared ar ddeunyddiau gwastraff o'r safle. Unwaith bydd y gwaith wedi ei orffen bwriad y Gwasanaeth yw adolygu a chryfhau graddau lleiniau harbwr unigol. O safbwynt hyn, hoffai'r Gwasanaeth atgoffa defnyddwyr y lloc o'r angen i gadw lleiniau unigol yn lân ac yn daclus, gan gydymffurfio gyda deddfwriaeth lechyd a Diogelwch perthnasol a thelerau'r cytundeb a wnaed gyda'r Gwasanaeth.
- 5.3 **Parcio yn yr Harbwr.** Mae'r Gwasanaeth yn dal i weithio tuag at gael manau parcio dynodedig ar Ffordd y Lloc i helpu Gweithwyr Masnachol ar y dŵr i ddal ati gyda'u gweithgareddau yn yr harbwr, gan gadw blaen yr harbwr yn rhydd o gerbydau masnachol. Fel yr adroddwyd eisoes, mae'r Gwasanaeth yn hysbysu o ran adfer cost a gwaith cynnal a chadw, bydd tâl ar raddfa sydd heb ei benderfynu eto yn cael ei ofyn gan weithredwyr masnachol sy'n defnyddio'r cyfleuster parcio.
  - 5.3.1 Hoffai Awdurdod yr Harbwr atgoffa'r defnyddwyr gwasanaeth am yr angen i ddefnyddio'r rhwystr ger mynedfa'r ffordd sy'n arwain at Lloc y Pysgotwyr yn effeithiol gan atal unrhyw barcio ar hap gan ddefnyddwyr di-awdurdod.
  - 5.3.2 Gwnaethpwyd cais am gymorth gan swyddogion gorfodaeth ac fe ddalier ati i wneud hyn yn ôl y gofyn, er mwyn galluogi i ddefnyddwyr yr harbwr gael mynediad rhwydd a di-rwystr i'r lithrfa parthed y marciau ffordd ger adeilad 'SS Dora' ac at lithrfa'r harbwr.

5.4 **Tywod. Morwrol** Gosododd gweithwyr y gwasanaeth ffens estyll castan ar fannau strategol o'r traeth dros y gaeaf i leihau tywod ac i annog datblygiad twyni yn yr ardal yma. Bwriad y ffens yw atal gormodedd o dywod rhag cael ei chwythu a mynd ar y promenâd, y ffordd, maes parcio a blaen yr harbwr. Mae ffens debyg hefyd wedi ei chodi i atal tywod rhag mynd dros y fynedfa i Ynys y Brawd. Dengys yr arwyddion cynnar bod y prosiect yma wedi bod yn werth chweil, ond bydd y sefyllfa yn parhau i gael ei monitro.

5.5 **Cadw cychod dros y Gaeaf ar y Maes Parcio.** Ni wnaeth unrhyw berchnogion cychod fanteisio ar y dewis i gadw cychod dros y gaeaf ar y maes parcio ger y Ganolfan Hamdden dros y gaeaf yma. Y llynedd, dim ond dau gwch a ddefnyddiodd y cyfleuster, ac mae'r gwasanaeth bellach yn adolygu hyfywdra'r opsiwn.

## 6. Digwyddiadau


6.1 Hyd yma, derbyniwyd ceisiadau i gynnal y digwyddiadau isod yn Harbwr Abermaw yn 2020:-

- Ras y Tri Chopa
- Digwyddiad Elusenol Beiciau Dŵr Porthmadog - Abermaw - Aberdyfi (Black Rock Blast)
- Gŵyl Farcud
- Gŵyl Fwyd Abermaw
- Digwyddiad Motorcross
- Gŵyl Chwaraeon Padlo
- Cymdeithas Nofio 'Digwyddiad Hwrlibwri'

6.2 Hoffai'r Gwasanaeth atgoffa'r aelodau ei bod yn hanfodol fod Awdurdod yr Harbwr yn cael gwybod am unrhyw ddigwyddiad arfaethedig yn yr Harbwr a bod y trefnwyr yn gofyn am ganiatâd, cyn gynted ag y bo modd.

FEBRUARY 2020

# Harbwr Abermaw / Barmouth Harbour



Tud. 16

This chart is intended as a guide only. All positions are given as approximate.  
 The aid to navigation may be moved without prior notice.  
 Mariners are advised to consult regularly with the harbour staff for updates  
 Tel: (01841) 280671 Mob: (07795) 012747  
 Email: glynjones@gwynedd.llyw.cymru

Fairway buoy	52° 42.732N	004° 04.905W
Num 1 bar buoy	52° 42.662N	004° 04.174W
Num 2 Bar Can	OFF STATION	OFF STATION
Num 4 Can	52° 42.728N	004° 03.941W
Num 6 Can	52° 42.773N	004° 03.793W
Cardinal buoy South	52° 42.822N	004° 03.729 W
Num 3 Inner Green	52° 43.004N	004° 03.085W
Visitors mooring Num 1	52° 43.012N	004° 02.921W
Visitors mooring Num 2	52° 43.017N	004° 02.870W
Visitors mooring Num 3	52° 43.109N	004° 02.766W